



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Penodi Comisiynwyr

Dyddiad cau: 1 Ebrill 2017



Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Cynnwys

	Tudalen
Gwneud Cais	3
Atodiad A: Rôl Comisiynydd	5
Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru	9
Atodiad C: Y broses ddethol	10

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Gwneud cais

Diolch am eich diddordeb mewn penodi Comisiynwyr i Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Mae tair swydd wag y mae angen maes arbenigedd penodol ar bob un (a ddisgrifir ym manyleb y person). Bydd pob Comisiynydd newydd yn chwarae rôl arweiniol drwy ddarparu her adeiladol ar draws busnes y Comisiwn Brenhinol i sicrhau y creffir ar bob agwedd ar ei strategaeth, ei gyfeiriad a'i ddulliau cyflwyno ar gyfer effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Mae'r Atodiadau atodedig yn rhoi manylion am rôl y Comisiynydd a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau'r Comisiwn Brenhinol a'r broses ddethol.

Er mwyn gwneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>.

Er mwyn gwneud cais am y rôl hon, cliciwch ar y swydd wag 'Comisiynwyr – Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru' a cliciwch ar 'Gwneud Cais' yn y gornel chwith isaf. Y tro cyntaf y gwnewch gais am swydd, bydd angen i chi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Unwaith yn unig y bydd angen i chi gofrestru a byddwch yn gallu dilyn cynnydd diweddaraf eich cais, ac unrhyw gais arall a wnewch, drwy eich cyfrif cofrestredig.

Ar ôl i chi gofrestru, byddwch yn gallu cyrchu'r ffurflen gais. Er mwyn gwneud cais, bydd angen i chi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros ymgeisio' y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Y datganiad personol yw eich cyfle i 1) amlinellu eich diddordeb yn y rôl, 2) dangos sut rydych yn bodloni'r meini prawf a restrir ym manyleb y person a 3) amlinellu sut y gallech gyfrannu i waith y Comisiwn Brenhinol. Eich dewis chi yw sut y cyflwynwch y wybodaeth. Fodd bynnag, dylech geisio rhoi enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i'r meini prawf (a rennir yn 'arbenigedd hanfodol' a 'sgiliau personol hanfodol'), ac sy'n disgrifio beth oedd eich rôl wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch ei gwneud yn glir pa un o'r meini prawf mae eich tystiolaeth yn ymwneud ag ef. Mae rhoi paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf yn arfer cyffredin.

Cyfyngwch eich datganiad personol i ddwy dudalen. Gellir gwrthod eich cais os ewch dros y terfyn hwn.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion cryno am eich swydd bresennol neu ddiweddaraf a'r dyddiadau roeddech yn ymgymryd â'r rôl hon. Nodwch unrhyw benodiad Gweinidogol yn y gorffennol neu'r presennol.

Amserlen ddangosol

Dyddiad cau:	18 Ebrill 2017
Llunio rhestr fer:	Ebrill 2017
Cyfweliadau:	Mai 2017

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Datganiad Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai aelodau bwrdd gyrff cyhoeddus adlewyrchu cymdeithas - pobl o bob cefndir - i'w helpu i ddeall anghenion pobl ac i wneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais i'w penodi i gyrff cyhoeddus. Mae croeso arbennig i geisiadau gan grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, gan gynnwys menywod, pobl dan 30 mlwydd oed, pobl ddu, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl, pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

Cynllun Gwarantu Cyfweiliad - Cadarnhaol am Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl ac mae'n croesawu ceisiadau gan bobl ag anableddau. Mae'r cynllun hwn yn gwarantu cyfweiliad i bobl anabl os ydynt yn bodloni isafswm meini prawf y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn eich galluogi i nodi anghenion neu gyfarpar penodol y gall fod eu hangen arnoch os cewch wahoddiad i gyfweiliad.

Cysylltiadau

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â'r canlynol:

Y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol

Ffôn: 029 2082 5454

E-bost: DesqGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a rôl y Comisiynwyr, cysylltwch â Christopher Catling:

Ffôn: 01970 621 200

E-bost: christopher.catling@cbhc.gov.uk

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch wrth wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â Desg Gymorth Cydwasanaethau Corfforaethol Llywodraeth Cymru drwy ffonio 029 2082 5454 neu e-bostio DesqGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

Penodi Comisiynwyr i Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Disgrifiad rôl a manyleb y person

Rôl a chyfrifoldebau

Mae Bwrdd y Comisiynwyr yn darparu arweiniad a dull llywodraethu i'r sefydliad, ac yn craffu ar bob un o weithgareddau'r Comisiwn Brenhinol, yn ogystal â herio'r gweithgareddau hynny'n adeiladol. Y Bwrdd hefyd sy'n llunio dyfodol y sefydliad. Mae'r Comisiwn Brenhinol yn awyddus i benodi unigolion sy'n ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaeth amgylchedd hanesyddol gorau posibl er budd holl bobl Cymru.

Fel Comisiynydd, byddwch yn:

- Adolygu Cynllun Gweithredol y Sefydliad, gan ystyried gwaith sy'n mynd rhagddo, cyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru yn y Llythyr Cylch Gwaith a'r mentrau sy'n deillio o'r Sefydliad ei hun;
- Sicrhau bod dull llywodraethu'r Sefydliad yn cydymffurfio â gofynion dogfen y Fframwaith, a bod cwrpas gweithgareddau'r Sefydliad yn syrthio o fewn telerau'r Warant Frenhinol;
- Sicrhau bod perfformiad y Sefydliad, fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru, yn cael ei gyflawni a bod adroddiad yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol ar weithgareddau'r Sefydliad;
- Cynnig arweiniad a chyfarwyddyd i staff arbenigol y Sefydliad, a monitro eu gwaith, mewn pwyllgorau neu'n unigol;
- Ymwneud yn uniongyrchol â chynnwys cyhoeddiadau arbenigol y Sefydliad, a chymryd cyfrifoldeb amdanynt; a
- Chynrychioli'r Comisiwn Brenhinol a'i fuddiannau yn ôl y galw.

Disgwylir i Gomisiynwyr hefyd:

- Fod â dealltwriaeth o'r amgylchedd hanesyddol a'i arwyddocâd;
- Bod â gweledigaeth eglur o'r ffordd y gall y Comisiwn Brenhinol barhau i weithio gyda phartneriaid allweddol i ddarparu'r gwasanaeth amgylchedd hanesyddol gorau posibl i Gymru;
- Gweithio fel rhan o Fwrdd y Comisiynwyr sy'n perfformio ar lefel uchel sy'n ymgymryd â dulliau rheoli perfformiad cadarn, sy'n arddangos ymddygiadau a gwerthoedd tîm craidd, sy'n herio ac yn cefnogi ei gilydd yn adeiladol, ac sy'n mesur yn barhaus lwyddiannau'r tîm yn erbyn nodau'r Comisiwn; ac
- Arddel a chynnal saith egwyddor bywyd cyhoeddus ("egwyddorion Nolan").

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Manyleb y Person

Er mwyn cael eich ystyried ar gyfer penodiad, mae'n rhaid i chi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad er mwyn bodloni'r holl feini prawf (wedi'u rhannu dan y teitlau 'arbenigedd hanfodol' a 'sgiliau personol hanfodol').

Meini Prawf Hanfodol

Arbenigedd Hanfodol

Mae'r Comisiwn Brenhinol wedi ymrwymo i atgyfnerthu ein bwrdd a chyflwyno amrywiaeth o ran yr aelodau, felly rydym yn chwilio am dri Chomisiynydd newydd y bydd ganddynt arbenigedd sylweddol mewn un neu fwy o'r meysydd canlynol:

- 1. Ymgysylltu â'r gymuned:** Un o egwyddorion allweddol ein strategaeth gorfforaethol yw gweithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol er mwyn sicrhau bod pobl Cymru yn cyfrannu i'n gwaith, yn hytrach na'i ddefnyddio yn unig. Rydym wedi cael rhywfaint o lwyddiant yn y maes hwn yn barod, gan roi hyfforddiant i oddeutu 200 o wirfoddolwyr treftadaeth ar sgiliau ymchwil archifol a chofnodi adeiladau. Rydym hefyd yn cynnwys gwirfoddolwyr ym mhob agwedd ar ein gwaith, o gatalogio i waith maes a chloddio archaeolegol, ac rydym yn annog pobl i gymryd rhan ar-lein drwy brosiectau cymorth torfol. Gallem wneud mwy, fodd bynnag, ac rydym yn awyddus i gyfrannu i uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i dreftadaeth fod yn gatalydd ar gyfer codi dyheadau pobl yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru, ymgysylltu â nhw, eu hysbrydoli a'u grymuso.

Felly, rydym yn dymuno recriwtio Comisiynydd â phrofiad ymarferol o weithio yn y maes hwn er mwyn ein helpu i lunio strategaeth briodol a realistig ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a'n helpu i nodi partneriaid posibl ar gyfer y gwaith hwn.

- 2. Strategaeth ddigidol:** Mae'r Comisiwn Brenhinol eisoes yn cael ei ystyried yn sefydliad sy'n arloesi mewn nifer o feysydd digidol ac mae wedi cael rôl arwain mewn nifer o brosiectau Cymru gyfan o ganlyniad i hynny. Ar yr ochr dechnegol, mae'r rhain yn cynnwys datblygu System Gwybodaeth Ddaearyddol, curadu archifau digidol a setiau data mawr iawn, a modelu newid yn yr hinsawdd. O ran cynnwys, mae'r rhain yn cynnwys arwain elfen arloesedd Casgliad y Werin Cymru, datblygu cronfeydd data ar themâu meysydd brwydrau ac enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru, a rheoli porth Cymru Hanesyddol, sy'n cyfuno data amgylchedd hanesyddol a gedwir gan nifer o gyrff gwahanol. Mae hwn yn faes gwaith sy'n tyfu i'r Comisiwn Brenhinol ac mae'n allweddol i'n cynaliadwyedd yn y dyfodol. Rydym yn dymuno darparu llawer mwy o gynnwys yn ddigidol i'n cwsmeriaid yn y dyfodol, eu helpu i ddod o hyd i'r data maent yn chwilio amdano'n gyflym ac yn hawdd, manteisio ar botensial masnachol ein delweddau a meithrin partneriaethau â'r sefydliadau allweddol eraill yn y sector er mwyn datblygu atebion ar y cyd i'r heriau rydym yn eu hwynebu mewn amgylchedd digidol sy'n newid yn gyflym.

Felly, rydym yn dymuno recriwtio unigolyn â hanes da ym maes arweinyddiaeth ddigidol er mwyn ein helpu i weld yn glir yr hyn y mae angen i ni ei wneud i osod sylfeini ar gyfer strategaeth ddichonadwy a fydd o gymorth i'r Comisiwn Brenhinol yn y dyfodol agos a'r tymor hwy.

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

3. Archaeoleg (gan gynnwys archaeoleg ddiwydiannol): Mae gwaith maes archaeolegol yn rhan fawr o'n gwaith, ac mae gennym nifer o brosiectau pwysig ar y gweill ar hyn o bryd, gan gynnwys prosiectau gwaith maes tymor hir a ariennir yn allanol. Fel un o wledydd diwydiannol cyntaf y byd, mae gan Gymru gyfoeth arbennig o archaeoleg diwydiant cynnar, ac mae cofnodi a deall y math hwn o dreftadaeth, sydd mewn perygl gwirioneddol yn sgil dileu swyddi ac ailddatblygu, yn rhan sylweddol o'n gwaith – yn enwedig fel partner yng nghynnig Cymru am statws Safle Treftadaeth y Byd ar gyfer y Diwydiant Llechi yng Nghymru.

Felly, rydym yn dymuno recriwtio archaeolegydd blaenllaw yn Gomisiynydd i helpu gyda'n gwaith o syllu ar y gorwel er mwyn nodi prosiectau addas a'n helpu i fanteisio i'r eithaf ar dechnolegau cofnodi digidol yn y maes, yn enwedig o ran safleoedd mawr a chymhleth.

Sgiliau Rhyngpersonol Hanfodol

Bydd angen i unigolion hefyd ddangos bod ganddynt:

- Sgiliau deallusol a dadansoddol cadarn;
- Y gallu i gynrychioli'r Comisiwn Brenhinol yn gyhoeddus a chyfathrebu'n effeithiol â rhanddeiliaid allweddol;
- Dealltwriaeth o'r cymunedau amrywiol yng Nghymru ac ymrwymiad i rannu buddion ymgysylltu â threftadaeth Cymru;
- Y gallu i gydweithio'n effeithiol, a gweithio gyda a thwy eraill i gyflawni'r amcanion; a
- Y gallu i ddod â syniadau newydd i drafodaethau ar faterion strategol ac ymarferol.

Y Gymraeg

Mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn ddymunol. Fodd bynnag, dylai pob ymgeisydd ddangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg mewn Cymru ddwyieithog, gan werthfawrogi polisïau a strategaethau iaith y Comisiwn Brenhinol.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad: Fel arfer, cynhelir y cyfarfodydd hyn yn Aberystwyth, ond gellir eu cynnal, o bryd i'w gilydd, rywle arall yng Nghymru.

Ymrwymiad Amser: Mae hyn yn ymrwymiad amser swyddogol oddeutu 10 diwrnod y flwyddyn ar gyfartaledd, ond gellir treulio mwy o amser na hynny ar waith paratoi.

Bydd disgwyl i'r Comisiynwyr allu bod yn bresennol mewn dau gyfarfod y flwyddyn, fel arfer ym mis Hydref a mis Ebrill. Mae pob cyfarfod naill ai'n ddeuddydd neu'n dridiau o hyd, a hefyd bydd cyfarfodydd achlysurol fel y cytunir bod eu hangen gan y Comisiynwyr. Yn achos aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn cyfarfodydd telegynadleda ychwanegol ym mis Ionawr a mis Gorffennaf.

Bydd angen i'r Comisiynwyr fod yn barod i ddarllen deunydd cefndir, cynrychioli'r Comisiwn Brenhinol rhwng cyfarfodydd,

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

bod yn aelod o baneli cyfweld ac yn aelod o gyrff adolygu strategol o bryd i'w gilydd ac, o bosibl, asesu testunau sydd i'w cyhoeddi.

Cyfnod y swydd: Cyfnod cychwynnol y penodiadau yw pum mlynedd, y gellir ei adnewyddu (yn amodol ar adolygiad boddhaol) hyd at 10 mlynedd.

Cydnabyddiaeth ariannol: £198 y diwrnod am bresenoldeb, ynghyd â chostau teithio a threuliau rhesymol eraill sydd o fewn y terfynau cydnabyddedig. Efallai y byddwch hefyd yn gymwys i adennill costau mewn perthynas â gofal plant/gofal i'r henoed/gofalwr cynorthwyol, wrth wneud gwaith ar ran y Comisiwn Brenhinol.

Cymhwysedd

Dylai ymgeiswyr nodi bod Comisiynydd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn swydd sy'n datgymhwyso aelodaeth o Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Datgymhwyso) 2015.

<http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2015/1536/contents/made>

Gwrthdaro Buddiannau

Gofynnir i chi ddatgan buddiannau preifat a fydd o bosibl, neu y gellir canfod eu bod, yn gwrthdaro â rôl a chyfrifoldebau Comisiynydd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, gan gynnwys buddiannau busnes a swyddi ag awdurdod y tu allan i'r rôl yn y Comisiwn Brenhinol.

Archwilir i unrhyw wrthdaro buddiannau mewn cyfweiliad. Os cewch eich penodi, bydd hefyd yn ofynnol i chi ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Disgwylir i chi ddangos safonau ymddygiad corfforaethol a phersonol uchel. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus. Gallwch gyrchu'r ddogfen hon ar:

<http://www.bl.uk/aboutus/governance/blboard/Board%20Code%20of%20Practice%202011.pdf> (Saesneg yn unig)

Rôl a chyfrifoldebau Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Gwasanaeth archifo ac archwilio cenedlaethol annibynnol, unigryw Cymru yw Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, sy'n ymroddedig i gofnodi a dehongli'n awdurdodol ein hamgylchedd hanesyddol cyfoethog. Rydym yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth ac yn gweithredu hyd braich o Lywodraeth Cymru, gyda staff medrus sy'n rhoi cyngor proffesiynol a gwybodaeth arbenigol i'r cyhoedd. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i Gymru, gan feithrin dealltwriaeth well o'n hadeiladau a'n tirweddau hanesyddol a chydabod potensial treftadaeth er mwyn helpu i wella bywydau pobl.

Cefndir

Mae hanes hir gan y Comisiwn Brenhinol yng Nghymru. Cafodd ei sefydlu ym 1908 drwy Warant Frenhinol, a ddiwygiwyd yn 2000. Mae'r Warant yn cyfarwyddo'r Comisiwn i 'arolygu a chofnodi henebion ac adeiladweithiau sy'n gysylltiedig â'r cyfnod cynharaf (gan gynnwys yr henebion a'r adeiladweithiau yng ngwely'r môr, arno neu oddi tano) drwy gywain, cynnal a churadu Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru fel y cofnod cenedlaethol sylfaenol o'r amgylchedd archeolegol a hanesyddol'.

Mae'r Comisiwn Brenhinol yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac mae ei rôl a'i gyfrifoldebau wedi'u nodi yng Ngwarant Frenhinol 2000. Nodir ein trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd mewn Dogfen Fframwaith. Caiff blaenoriaethau gweithredol a thargedau perfformiad y Comisiwn Brenhinol eu llywio gan Lythyr Cylch Gwaith blynyddol oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith. Mae'r llythyr hwn yn nodi blaenoriaethau strategol, polisiau penodol a chynlluniau gweithredu, a pholisiau a gweithdrefnau ehangach Llywodraeth Cymru.

Rôl y Bwrdd

Mae Bwrdd y Comisiynwyr yn darparu arweinyddiaeth a dull llywodraethu i'r sefydliad, ac yn craffu ar bob un o weithgareddau'r Comisiwn, yn ogystal â herio'r gweithgareddau hynny'n adeiladol. Y Bwrdd hefyd sy'n llunio dyfodol y sefydliad.

Mae Bwrdd y Comisiynwyr yn cynnwys Cadeirydd a hyd at ddeg Comisiynydd arall. Mae chwe Chomisiynydd ar hyn o bryd, gan gynnwys y Cadeirydd, Dr Eurwyn Wiliam. Y Comisiynwyr eraill yw: Catherine Hardman (Is-gadeirydd), Thomas Lloyd, yr Athro Chris Williams, Dr Mark Redknap a Caroline Crewe-Read.

Drwy adeiladu ar ei lwyddiannau a'i gyflawniadau diweddar, mae'r Comisiwn Brenhinol bellach yn awyddus i dyfu a datblygu at y dyfodol. Rydym yn dymuno penodi tri Chomisiynydd newydd.

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CVs a datganiadau personol ymgeiswyr er mwyn penderfynu pwy sydd orau o ran bodloni meini prawf y rôl a'r bobl y dylid eu gwahodd i gyfweiliad. Bydd y panel yn dibynnu'n llwyr ar y wybodaeth a nodir gennych yn eich CV a'ch datganiad er mwyn asesu a oes gennych y sgiliau a'r profiad angenrheidiol. Sicrhewch eich bod yn rhoi tystiolaeth i gefnogi sut rydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Cadeirydd y panel dethol fydd Dr Eurwyn Wiliam (Cadeirydd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru) a bydd hefyd yn cynnwys Catherine Hardman (Is-gadeirydd y Comisiwn Brenhinol), Andrew George (Swyddog Adrannol Llywodraeth Cymru) a Dr Susan Davies fel Aelod Panel Annibynnol.

Gall eich cais "gyrraedd rhestr hir", yn amodol ar nifer y ceisiadau a dderbynnir, cyn ei drosglwyddo i'r panel sy'n llunio'r rhestr fer ei ystyried. Yn y sefyllfa hon, dylech fod yn ymwybodol na fydd y panel cyfan efallai'n ystyried eich cais yn llawn.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel, ym mis Ebrill 2017, wedi penderfynu ar y bobl y dylid eu gwahodd i gyfweiliad ym mis Mai 2017.

Bydd y panel yn dewis yr ymgeiswyr cryfaf yn unig y mae'n teimlo eu bod wedi dangos mai nhw sydd orau o ran bodloni'r meini prawf a nodir ym manyleb y person. Fodd bynnag, os ydych wedi gwneud cais dan y cynllun gwarantu cyfweiliad ac rydych yn bodloni isafswm meini prawf hanfodol y swydd, cewch eich gwahodd i gyfweiliad hefyd.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad ac nid yw dyddiad y cyfweiliad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd i chi ag y bo modd o ran dyddiad y cyfweiliad. Os na allwch ddod ar ddyddiad y cyfweiliad a drefnir, byddwn yn ymdrechu i'w ail-drefnu, ond efallai na fydd yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser yn yr amserlen benodiadau neu argaeledd y panel dethol.

Cewch neges e-bost gan y system benodi i roi gwybod i chi a ydych wedi cael gwahoddiad i gyfweiliad ai peidio. Ein bwriad yw y cynhelir y cyfweiliadau yng Nghaerdydd.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn gofyn i chi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a nodir ar gyfer y swydd.

Penodir Comisiynwyr gan y Frenhines dan Warant Frenhinol yn unol â chyngor y Prif Weinidog, sy'n gweithredu drwy ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru. Mae Adran 62 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud sylwadau priodol ar unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru. Gan hynny, caiff argymhellion ar benodiadau i'r Comisiwn Brenhinol eu gwneud i'r Prif Weinidog gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith, sef y Gweinidog perthnasol o blith Gweinidogion Cymru, sy'n cael ei gynghori ar y mater hwn gan Cadw.

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Felly, bydd y panel yn argymhell ymgeiswyr y mae'n credu y 'gellir eu penodi' i Weinidogion wneud yr argymhelliad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cwrdd ag ymgeiswyr y gellir eu penodi cyn gwneud yr argymhelliad terfynol. Os gwna, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ac ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu gynrychiolydd a enwebir ganddo. Bydd bwloch amser rhwng y cyfweiliad a gwneud y penodiad terfynol. Rhoddir gwybod i'r ymgeiswyr y cyfwelwyd â nhw am y cynnydd diweddaraf.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch llythyr yn eich penodi'n Gomisiynydd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a fydd yn cadarnhau ar ba delerau y cynigir y penodiad.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i chi os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweiliad. Rydym yn gwerthfawrogi bod gwneud cais am rolau'n cymryd llawer o amser ac ymdrech a bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn rhoi'r manylion cyswllt i chi ofyn am adborth ar eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch.

Ymholiadau

Ar gyfer ymholiadau ar eich cais, cysylltwch â'r Ddesg Gymorth Cydwasanaethau Corfforaethol drwy ffonio 029 2082 5454 neu e-bostio

DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk

Os nad ydych yn gwbl fodlon

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu pob cais mor gyflym ag y bo modd a thrin pob un yn gwrtais. Os hoffech gwyno am y ffordd y triniwyd eich cais, cysylltwch â'r Ddesg Gymorth Cydwasanaethau Corfforaethol drwy ffonio 029 2082 5454 neu e-bostio DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk